# SL(6)644 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"). Maent yn disgrifio'r cyrsiau sydd i'w dynodi gan Reoliadau 2018 ac yn darparu ar gyfer uchafswm benthyciad ffioedd dysgu, hyd at £9,535, i fyfyrwyr cymwys ar y cyrsiau hynny yr effeithir arnynt.

Mae'r Rheoliadau yn ofynnol o ganlyniad i adolygiad a gynhaliwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o gyrsiau breiniol a lanlwythwyd gan ddarparwyr addysg uwch (ac a ddarperir gan sefydliadau preifat yn Lloegr) i'w system Gwasanaeth Rheoli Cyrsiau (CMS). Disgrifir y cyrsiau hyn ar CMS fel rhai sydd wedi'u dynodi at ddiben denu cymorth statudol i fyfyrwyr o Gymru. Mae dynodiad yn galluogi talu cymorth ariannol i fyfyrwyr a darparwyr addysg uwch.

Canfu'r adolygiad fod rhai cyrsiau wedi'u dynodi ar gyfer cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU ond nid gan Lywodraeth Cymru. Mae darparwyr y cyrsiau hyn yn codi'r uchafswm ffi ddysgu yn Lloegr ond heb y Rheoliadau hyn dim ond i uchafswm benthyciad ffioedd dysgu o £6,355 y mae gan fyfyrwyr o Gymru hawlogaeth i'w gael, o'i gymharu â'r gyfradd lawn o £9,535. Ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, y benthyciad is at ffioedd dysgu i'r rhai sy'n astudio yn Lloegr yw £4,765, o'i gymharu â'r gyfradd lawn o £7,145. Felly, mae'r Rheoliadau yn angenrheidiol er mwyn galluogi myfyrwyr sy'n dechrau cwrs neu sy'n parhau â chwrs gyda dyddiad dechrau rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2025 i fod yn gymwys i gael cymorth, gan gynnwys darparu'r uchafswm benthyciad ffioedd dysgu, hyd at £9,535.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y Rheoliadau yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr ar gyrsiau yr effeithir arnynt dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 27 Awst 2025, fe'u gosodwyd ar 29 Awst 2025 a daethant i rym ar 31 Awst 2025. Mae adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys os na osodir offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol o leiaf 21 o ddiwrnodau calendr cyn iddo ddod i rym. Mae'n darparu bod rhaid i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Llywydd ac esbonio na chadwyd at y gofyniad 21 o ddiwrnodau.

Ysgrifennodd Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, at y Llywydd ar 29 Awst 2025 ("Llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet") gan nodi:

> *"Bydd y Rheoliadau yn dod i rym cyn i 21 diwrnod fynd heibio. Rhaid i'r Rheoliadau fod mewn grym cyn 1 Medi (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd) er mwyn galluogi myfyrwyr sy'n dechrau neu'n parhau â chwrs gyda dyddiad dechrau rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr i fod yn gymwys i gael cymorth ffioedd dysgu digonol. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr ar gyrsiau yr effeithir arnynt dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau ("y Memorandwm") a Llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet fod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i adolygiad a gynhaliwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o gyrsiau breiniol a lanlwythwyd gan ddarparwyr addysg uwch, ac a ddarperir gan sefydliadau preifat yn Lloegr, i'w system Gwasanaeth Rheoli Cyrsiau. Nododd yr adolygiad hwn nad oedd pob un o'r cyrsiau wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm na Llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y daeth yr adolygiad hwn i ben; pryd y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r canfyddiadau; nac esboniad pam roedd angen unrhyw gyfnod o amser rhwng cwblhau'r adolygiad a gwneud y Rheoliadau. Felly, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth hon ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *O ystyried natur frys y newidiadau hyn, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r ail bwynt adrodd yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.